# Cofnodion

## Cyngor

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021 |
| Amser: | 5.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend, J Watkins and A Morris |
| Yn bresennol: | |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr G Giles |

---

1. **Cofnodion**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021.

Eitem 4 Rhybudd o Gynnig: Ffordd liniaru'r M4

Gofynnodd y Cynghorydd M Evans am gywiro'r ystadegyn dan yr eitem uchod o 8% i 98% oedd yn cyfeirio at yr ardal o fewn y llwybr du heb ei gyffwrdd.

Eitem 6 Cyllideb refeniw a Chynigion Terfynol y CATC

Yr oedd datganiad y Cynghorydd M Evans i'w gywiro lle'r oedd yn croesawu'r cynigion am daliadau parcio ac nid oedd yn cefnogi'r taliadau parcio y cyfeirir atynt yn y Cofnodion.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar gofnodion 3 Mawrth 2021 yn amodol ar yr uchod.

2. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau arfaethedig sydd yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau sydd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol isod.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar y penodiadau a ganlyn.

**Penodiadau Cyrff Llywodraethol**

| Corff Llywodraethol | Nifer llefydd | Enwebiadau a dderbyniwyd |
|---|---|---|

| | gwag / ailbenodiadau | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Caerleon Lodge | | Rob Isaac |
| Ysgol Gynradd St Patrick | | Matthew Pimm |
| Ysgol Gymraeg Bro Tyrnon | | Julie Watkins |

**Penodiadau Allanol**

| **Sefydliad** | **Nifer llefydd gwag / Penodiadau newydd** | **Enwebiadau a dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Raven House | 1 | Cynghorydd J Hughes |

3. **Rhestr Tâl Aelodau 2021/22**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad.

Yr oedd y Cynghorydd Ferris yn falch o gyflwyno a mabwysiadu'n ffurfiol y Rhestr Tâl Aelodau am 2021/2022 fel y'i gosodwyd allan yn yr Atodiad i'r adroddiad.

Panel Tâl Annibynnol Cymru (PTAC) oedd y corff oedd â'r dasg o osod lefelau tâl i gynghorau yng Nghymru. Yr oedd y PTAC yn pennu cyflogau sylfaenol a rhai uwch, a hefyd gyfraddau ac amodau treuliau oedd yn cael eu talu gan awdurdodau cyhoeddus.

Cyhoeddodd y PTA ei Adroddiad Blynyddol am 21/22, oedd yn unol â'r adroddiad drafft a ystyriwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd 2020. Pennodd y PTAC y dylid cael cynnydd am chwyddiant o £150 i gyflog blynyddol sylfaenol pob aelod etholedig, oedd yn codi'r cyflog sylfaenol i £14,368. Byddai hyn yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2021.

Byddai cyflogau uwch-swyddogion yn cael eu codi ar yr un gyfradd chwyddiant o 1.06%. Yr oedd cyflogau unigol uwch-swyddogion wedi ei eu gosod allan yn yr Atodiad a byddai enwau'r aelodau perthnasol yn cael eu hychwanegu at y cynllun cyhoeddedig unwaith i'r penodiadau gael eu cadarnhau yn CCB y Cyngor ym mis Mai.

Yr oedd symiau'r cyflogau yn cael eu gosod gan y PTA ac nid oedd disgresiwn i'r Cyngor newid y ffigyrau.

Nid oedd unrhyw newidiadau pellach i gynllun lwfansau llynedd.

Yn olaf, yn ôl gofyniad y PTA, atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau o'u hawl i gael ad-daliad o gostau gofal, yn ddienw ac yn gyfrinachol, lle maent yn gymwys.

**Penderfynwyd:**
Fod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Rhestr Tâl Aelodau am 2021/22 fel sydd wedi ei osod allan yn Atodiad 1 yr adroddiad.

4. **Ardrethi Annomestig Cenedlaethol: Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi Dewisol Covid-19**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor.

Creodd pandemig covid-19 amodau masnachu anodd i lawer o fusnesau'r ddinas, ac mewn ymateb i hyn, darparodd Llywodraeth Cymru fesurau a fwriadwyd i helpu busnesau am nad oeddent yn gallu masnachu fel arfer.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod allan ddau gynllun rhyddhad ardrethi a roddodd gymorth uniongyrchol i fusnesau'r ddinas.

Yr oedd y cynllun cyntaf yn estyniad o Gynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i 2021-22, oedd yn gwneud i ffwrdd â'r gofyniad i dalu ardrethi busnes i drethdalwyr cymwys am ail flwyddyn.

Yr ail gynllun oedd y Cynllun Estynedig Rhyddhad Ardrethi Hamdden a Lletygarwch. Fe'i cyflwynwyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, ac yn rhoi cymorth yn benodol i fusnesau hamdden a lletygarwch mwy, gan wneud i ffwrdd â'r angen i dalu ardrethi busnes am 2020-21 a 2021-22.

Yr oedd angen i'r Cyngor gymeradwyo'r cynlluniau hyn gan fod rhyddhad ardrethi yn cael ei roi dan ddarpariaethau rhyddhad ardrethi disgresiynol. Gan i'r ddau gynllun gael eu derbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, a bod angen gweithredu ar frys i sicrhau bod busnesau yn elwa'n syth, cymeradwywyd y cynlluniau gan yr Arweinydd dan y darpariaethau brys.

Yr oedd hyn yn sicrhau nad oedd yn rhaid i drethdalwyr bryderu am dalu ardrethi yn 2021-22 a bod y rhyddhad wedi ei gymhwyso'n gyflym i'w cyfrifon ardrethi, a'r hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi cyn i'r rhandaliad cyntaf fod yn ddyledus ym mis Ebrill.

Yr oedd yr adroddiad hwn yn ceisio cadarnhad ôl-weithredol i'r penderfyniadau i fabwysiadu'r cynlluniau.

<u>Sylwadau'r Cynghorwyr:</u>

Cefnogodd y Cynghorydd Al-Nuaimi yr adroddiad ac yr oedd yn falch o weld help yn cael ei roi i fusnesau yn amserol gan y Cyngor trwy benderfyniad brys yr Arweinydd. Diolchodd hefyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am y cymorth a dderbyniwyd fel cyngor a chymuned. Y gobaith oedd y byddai'r rhyddhad hwn yn rhoi busnesau mewn lle gwell.

Ategodd y Cynghorydd Fouweather y sylwadau uchod a phwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybod i fusnesau bach am yr help hwn trwy hysbysebion gan y Cyngor. Gobeithiai y byddai hyn yn cael ei wneud, ac y byddai nifer dda o fusnesau yn gwneud cais am yr help hwn.

**Penderfynwyd:**
Fod y Cyngor yn cytuno i fabwysiadu:

1. Gynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru am 2021-2, a
2. Cynllun Estynedig Rhyddhad Ardrethi Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru am 2020-21 a 2021-22 trwy wneud y penderfyniadau priodol, yn ôl gofynion Adrannau 47(1)(a) a 47(3) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac a osodir allan yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

5. **Polisi Tâl a Gwobrwyo 2021/22**

Mae Polisi Tâl a Gwobrwyo'r Cyngor i'r gweithlu yn adroddiad blynyddol y mae angen i'r Cyngor ei fabwysiadu. Mae'r polisi hwn yn gosod allan y mecanweithiau mewnol am dalu swyddogion y Cyngor ac yn crybwyll unrhyw newidiadau ers ei fabwysiadu ddiwethaf.

Cymeradwywyd y polisi ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020 ac nid oedd newidiadau yn cael ei gynnig iddo eleni. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r bwlch tâl blynyddol rhwng y rhywiau hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod y bwlch tâl cymedrig wedi lleihau am yr ail flwyddyn o 1.92% o'r hyn yr adroddwyd arno llynedd o 3.6%. Adroddodd yr Arweinydd ym mis Tachwedd fod bwlch cymedrig 2019 wedi cau yn gyfan gwbl, gan i'r dadansoddiad o'r data ddangos fod y pwynt cymedrig o dâl yr awr yr un fath i ddynion a menywod.

Bu newid bychan i hyn, ac yr oedd bwlch tâl cymedrig o 0.57% am 2020.
Yr oedd bwlch tâl rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn dal i gymharu'n ffafriol â chynghorau eraill ledled Cymru a chyfartaledd y DU o 17% ond byddwn yn dal ati i ymdrechu i ddileu'r bwlch tâl rhwng dynion a menywod a gyflogir gan y Cyngor.

Yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal bob tair blynedd, ac yr oedd hyn i fod i'w wneud yn y flwyddyn galendr hon.

**Penderfynwyd:**
Fod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn cyfoesi'r Polisi Tâl a Gwobrwyo er mwyn cwrdd â'r gofyniad statudol am gymeradwyo a chyhoeddi datganiad polisi tâl gan y Cyngor yn flwyddyn.

## 6. Cofnodion y Pwyllgor Safonau: 15 Ebrill 2021

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 15 Ebrill 2021 lle'r argymhellwyd fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Gweithwyr newydd a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

## 7. Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor

Cyhoeddodd yr Arweinydd y canlynol cyn bwrw ymlaen â'r Cwestiynau.

- **Cyllid a ddyfarnwyd am ganolfan hamdden**
  Fis diwethaf, rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad i'r Cyngor am y ganolfan hamdden a lles newydd yng nghanol ein dinas.

  Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gadarnhau fod y cyngor wedi llwyddo i sicrhau £7 miliwn o gyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru tuag at y prosiect.

  Byddai'r ganolfan unswydd yn rhoi'r cyfleusterau diweddaraf i drigolion ac yn paratoi'r ffordd i ail-ddatblygu safle bresennol Canolfan Casnewydd i roi cyfleuster addysg bellach newydd sbon i Goleg Gwent.

  Yr oedd gwaith yn digwydd ar gynigion terfynol a dyluniadau cyn cyflwyno cais cynllunio llawn, a ddisgwylir yn nes ymlaen eleni.

- **Cyllid i'r Bont Gludo**
  Cafodd un arall o brosiectau arweiniol y Cyngor hwb gan y newyddion cadarnhaol fod grant gwerth £1.5m wedi ei gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect trawsnewid y Bont Gludo.

  Byddai'r arian yn ategu'r £8.75m a ddyfarnwyd gan Gronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri, a chyllid cyfalaf o £1m a ymrwymodd y cyngor hefyd i'r prosiect.

  Byddai'r Arweinydd yn edrych ymlaen yn fawr at agor y cyfleusterau newydd gwell yn 2023.

- **Terfynau cyflymder 20mya**
  Bu ein timau yn gweithio'n galed i gyflwyno terfynau cyflymder 20 mya ar draws nifer o strydoedd preswyl yn chwech o wardiau ein dinas.

  Yr oedd y mesurau yn cael eu cyflwyno i helpu i wella diogelwch ar strydoedd preswyl i gefnogi pobl i deimlo'n hyderus i ddewis dulliau teithio llesol fel cerdded a beicio – rhywbeth yr oedd y cyngor yn mynd ati i'w hyrwyddo trwy gynlluniau teithio llesol.

- **Teithio llesol**
  Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gadarnhau y bydd Casnewydd yn elwa o bron i £10m o arian Llywodraeth Cymru i wella nifer o lwybrau teithio llesol ledled y ddinas.

  Mae'r cyllid o £8m wedi ei neilltuo o godi pont droed newydd yn Devon Place, gan ei gysylltu ar draws prif lein y rheilffordd i Queensway.

  Neilltuwyd £100k ychwanegol i wella llwybr cyswllt y gamlas rhwng y Betws a Malpas. Byddai £61k yn helpu i ddatblygu llwybrau teithio llesol ym Mhwll Llyswyry, gan roi dewis oddi ar y ffordd i gysylltu â'r ardal o gwmpas â Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.

  Byddai'r cyngor hefyd yn derbyn £751k mewn grantiau craidd, fyddai'n mynd tuag at ddatblygu cynlluniau a nodwyd fel rhan o adolygiad map teithio llesol 2017/18. Diolchodd yr Arweinydd i bawb oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd ymgynghoriad pellach ar lwybrau arfaethedig newydd ar sail awgrymiadau a dderbyniwyd yn dechrau toc.

- **Cerbyd sbwriel trydan**
  Fis diwethaf, yr oeddem yn falch iawn o lansio cerbyd casglu sbwriel trydanol cyntaf Cymru.

  Yr oedd yn cael ei ddefnyddio ar rowndiau casglu o gwmpas y ddinas, a byddai'n gwasanaethu ardaloedd fel Caerllion, a nodwyd fel blaenoriaeth o ran helpu i wella lefelau ansawdd aer.

  Byddai'r cerbyd yn lleihau allyriadau carbon o ryw 25-35 tunnell y flwyddyn o gymharu â cherbydau safonol heb fod yn rhai trydan.

  Yr oedd yn rhan o brosiect ehangach i roi cerbydau newydd i'r cyngor gyda cherbydau ecogyfeillgar i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030

- **Cynllun digartrefedd**
  Mewn cynllun arloesol newydd arall, yr oedd yr Arweinydd yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu tai fforddiadwy i bobl mewn perygl o ddigartrefedd.

  Gan weithio gyda Linc Cymru, cytunwyd i brydlesu rhan o faes parcio Hill Street ar gyfer prosiect tai gyda chefnogaeth fyddai'n cynnwys deuddeg o fflatiau hunangynhwysol.

  Byddai'r fflatiau hyn yn darparu llety "symud ymlaen" i bobl mewn llety dros dro, mewn lleoliad sy'n agos at wasanaethau hanfodol.

  Byddai Linc Cymru yn rheoli'r tenantiaethau ac yn cefnogi trigolion, fel y gallant gael bywyd mwy sefydlog a diogel. Y nod oedd eu helpu i gael llety tymor hir lle gallent fyw yn annibynnol.

  Yr oedd gwaith cychwynnol yn dechrau gan ddefnyddio hawliau datblygu a ganiatawyd, ac yr oedd ymgynghori gyda chymdogion wedi dechrau cyn cyflwyno cais cynllunio llawn.

- **Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU**
- Gwahoddwyd ceisiadau am Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU am brosiectau yng Nghasnewydd.

  Y nod oedd cefnogi pobl a chymunedau mwyaf anghenus yn y DU, gan greu cyfleoedd i roi prawf ar agweddau newydd a syniadau arloesol ar lefel leol.

  Fel cyngor, buasem yn cydgordio cyflwyno prosiectau yng Nghasnewydd, felly yr oedd yr Arweinydd am annog trigolion i gefnogi ceisiadau lleol. Yr oedd manylion llawn am y cynllun ar gael ar wefan y Cyngor a'r dyddiad cau oedd dydd Gwener 21 Mai.

  Yn olaf, rhoddodd yr Arweinydd ddiolchiadau personol i Bennaeth Ysgol St Andrew's, Jo Giles, ei huwch-dîm rheoli a'r holl gydweithwyr. Yr oedd hyn am y gefnogaeth a roddwyd i'r ysgol pan oedd gwaith mawr yn cael ei wneud i'r prif adeilad ac y bu'n rhaid i'r plant iau symud i ystafell ddosbarth dros dro.

  Diolchodd yr Arweinydd i Gasnewydd Fyw a Casnewydd Norse am drawsnewid y ganolfan gyswllt yn gyfleuster gwych i'r ysgol.

  Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gael ei gwahodd i ymweld â'r ysgol gyda'r Dirprwy Arweinydd oedd yn Gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

- Cynghorydd M Evans:

  Yr oedd y Grŵp Ceidwadol wedi cyflwyno nifer o Gwestiynau Ar Unrhyw Adeg (CAUA) i Aelodau'r Cabinet a Chwestiynau i'r Cyngor, a bod nifer cynyddol wedi eu dyfarnu fel rhai gweithredol, oedd yn golygu na chawsant eu cyhoeddi i'r cyhoedd weld, ac nad oedd Aelodau Cabinet yn cael eu dal i gyfrif am y cwestiwn. Enghraifft o hyn oedd pan ofynnodd y Cynghorydd Routley i'r Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau beth oedd yn digwydd i hen ddyfeisiadau electronig cynghorwyr, megis gliniaduron ac iPads ac a oedd modd eu hadnewyddu a'u hanfon i'r gymuned, a bod hyn wedi ei alw yn weithredol. Sylwodd y Cynghorydd M Evans hefyd o ran datganiadau i'r wasg, mai dim ond storïau am newyddion da oedd yn cael eu cyhoeddi ar ran yr Arweinydd neu Aelodau'r Cabinet, ond pan fyddai unrhyw eitem yn debyg o greu embaras, llefarydd y Cyngor fyddai'n cyhoeddi datganiad. Pryd, felly, y byddai'r Arweinydd a'r Cabinet yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd?

  Atebodd yr Arweinydd trwy ddweud, o ran cymryd cyfrifoldeb ac fel cyn- Arweinydd y Cyngor, yr oedd yr Arweinydd yn siŵr fod y Cynghorydd M Evans yn ymwybodol fod ymatebion CAUAS gan Aelodau Cabinet yng nghyswllt polisïau a strategaethau, y cymerwyd agwedd strategol. Yr oedd cwestiynau gweithredol eraill yn cael eu dirprwyo i Benaethiaid Gwasanaeth a swyddogion yn y Cyngor i roi ymateb. Nid oedd dim felly ynghudd ac yr oedd yr holl gwestiynau yn destun Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG), fel y gwyddai cydweithwyr y Cynghorydd M Evans. Yr oedd yr Arweinydd felly yn hapus i ddweud ei bod hi a'i chydweithwyr yn atebol am eu holl weithredoedd a'u bod yn agored a thryloyw.

  <u>Ategol:</u>

  Yr oedd y Cynghorydd M Evans wedi gwrando ar gyfarfodydd Cabinet, oedd yn swnio iddo ef fel cymanfa hunan-ganmol. Ni allai'r cynghorydd gofio'r tro diwethaf y cymerodd y Cabinet gyfrifoldeb dros eu gweithredoedd ac yr oedd unrhyw gamgymeriadau yn cael eu hystyried yn fai rhywun arall. Anfonodd y Cynghorydd J Watkins gwestiwn i'r Cyngor am y gyllideb hyfforddi a sut y'i gwariwyd. Yr ateb eto oedd mai mater gweithredol oedd hwn

ac y byddai swyddog yn ateb, sydd yn penderfynu pwy sy'n mynd i ba gyrsiau hyfforddi. Ystyriodd y Cynghorydd M Evans y dylai hyn gael ei ateb gan y Cabinet fel rhan o'u cyfrifoldeb a gofynnodd pwy oedd yn rhedeg y cyngor, yr Aelodau Cabinet neu'r swyddogion.

Ailadroddodd yr Arweinydd ei hateb ei bod hi a'i chydweithwyr yn y Cabinet yn cymryd penderfyniadau strategol yn unol â pholisïau ac mai'r swyddogion oedd yn cymryd penderfyniadau gweithredol.

- Cynghorydd Whitehead:

Yn y gyllideb ddiweddar, pleidleisiodd y Cyngor i fuddsoddi £500,000 mewn cronfa adfer gymunedol Covid i gefnogi grwpiau cymunedol i chwarae eu rhan i gefnogi adferiad cyfrifol. Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead felly faint o'r arian hwn a ddosbarthwyd ac i bwy.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd dim o'r arian wedi ei ddosbarthu eto, gan mai'r broses oedd i grwpiau cymunedol wneud cais am y cyllid a phenderfynu sut a lle i'w wario. Cymerodd y Cabinet ran mewn proses o gyllideb gyfranogol a gyllidwyd gan y sector iechyd i grwpiau cymunedol gyflwyno bidiau, oedd yn cael eu hasesu a phleidleisio arnynt, oedd yn cael ei ragweld hefyd ar gyfer cronfa gymunedol Covid i benderfynu pwy oedd yn derbyn y cyllid.

<u>Ategol:</u>

Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead a fyddai'r Arweinydd yn darparu'r wybodaeth a drafodwyd uchod ar y wefan, wedi ei farcio'n glir i aelodau'r cyhoedd wybod sut i wneud cais am yr arian, wedi'i ategu gan y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Yr oedd cyllid hefyd ar gyfer pob grŵp ar draws y sbectrwm.

Cytunodd yr Arweinydd mai mater o adfer ar lawr gwlad oedd hyn ac ar gyfer y grwpiau hynny na fedrodd weithredu yn ystod y clo. Yr oedd yr Arweinydd yn cydnabod yr effaith ar yr incwm bychan mae grwpiau yn dderbyn, a hefyd yr effaith ar unigolion a'u lles. Yr oedd yr Arweinydd eisiau cefnogi eu lles trwy rymuso'r grwpiau hyn. Gallai grwpiau newydd hefyd wneud cais am yr arian hwn. Yr oedd y swyddogion yn dal i weithio ar y fformiwla ddosbarthu i weld a oedd modd ymwneud gan ddefnyddio'r model a grybwyllwyd uchod, a buont yn gweithio'n eithriadol yn hyn o beth. Wrth gwrs, byddai'r Arweinydd yn gofalu y byddai'r cyllid hwn yn cael llawer o gyhoeddusrwydd ac yr oedd am i'w holl gydweithwyr helpu gyda hyn.

- Cynghorydd C Townsend:

Gyda phenodi Prif Weithredwr fis Gorffennaf llynedd, a fydd yr Arweinydd yn rhoi cyfoesiad am recriwtio Cyfarwyddwr Strategol Lle a Phobl.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Townsend am ei chwestiwn ac am gymryd rhan yn y broses recriwtio fis Gorffennaf ddiwethaf. Yr oedd y Prif Weithredwr yn edrych ar strwythur sefydliadol y cyngor a bydd yn dod ag adroddiad i'r Cyngor am hyn yn y man.

- Cynghorydd J Hughes:

Wedi derbyn crynodeb o fusnes ar y bwletin ar-lein, allai'r Arweinydd roi cyfoesiad am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Soniodd yr Arweinydd fod hyn yn ofyniad statudol, a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015. Yr oedd Casnewydd yn unigryw yn ei

aelodaeth ac wedi sefydlu cynllun lles, a oedd yn asio ag amcanion y cynllun corfforaethol.

Rhoddwyd nifer o flaenoriaethau gydag arweinwyr dynodedig o blith aelodau'r bwrdd i fwrw ymlaen â hwy i ddinasyddion Casnewydd. Yn ogystal â meddu ar bartneriaid statudol, yr oedd gan y BGC bartneriaid heb fod yn statudol oedd yn cael eu gwahodd: yr oedd y rhain o Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Prawf, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Casnewydd Fyw, Cyngor Ieuenctid Casnewydd yn ogystal â chynrychiolwyr o GAVO a Chyngor ar Bopeth. Daethant at ei gilydd gyda phartneriaid ar brosiectau fyddai o les i Gasnewydd, ac yr oedd y gyllideb gyfranogol hefyd yn rhan o'r cynllun hwn, gan weld canlyniadau cadarnhaol.

Soniodd yr Arweinydd y dylai grybwyll gwaith y BGC a rhannu rhai o'u blaenoriaethau, megis themâu sgiliau, cynaliadwyedd, a hefyd waith Casnewydd ddiogelach a Chynnig Casnewydd, oedd yn edrych ar agweddau ehangach byw yng Nghasnewydd. Yr oedd yr holl waith hwn yn mynd rhagddo, ac yr oedd yn falch o adrodd yn ôl am y gwaith oedd yn cael ei wneud. Soniodd yr Arweinydd hefyd fod y fformat newydd yn hygyrch iawn, gan roi trosolwg i bawb o'r BGC.

Ategol:

Holodd y Cynghorydd Hughes sut yr oedd mannau gwyrdd a theithio cynaliadwy yn cyd-fynd â'r awdurdod lleol.

Dywedodd yr Arweinydd mai un o'r blaenoriaethau oedd datblygu cynaliadwy a bod y cyngor yn gweithio'n galed ar hyn ac yn awyddus i fwrw ymlaen. Yr oedd yn falch o allu dweud wrth ei chydweithwyr fod y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi dilyn hyfforddiant llythrennedd carbon oedd yn galluogi i ni gael ein hachredu fel awdurdod. Yr oedd yr Arweinydd am wneud yn siŵr fod pawb yn gwybod am hyn, ac un o'r materion allweddol oedd arwyddo'r siarter teithio cynaliadwy, gyda'r BGC. Yr oedd y Cyngor yn gyflogwr o bwys ledled Gwent ac felly eisiau helpu gweithwyr, a'u cymell i ganolbwyntio ar ffyrdd gwahanol o fynd i'r gwaith. Yr oedd y cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru ar brosiectau seilwaith. Yr oedd y Cabinet wedi nodi swm sylweddol o arian i gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd ar gyfer adferiad gwyrdd, a rhan o hyn oedd edrych ar waith prosiect fel draenio cynaliadwy a glanhau canol y ddinas yn ogystal â'r gamlas. Yr oedd hyn oll yn cael ei wneud gyda help y BGC.

8. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Cwestiwn 1 - Aelod Cabinet: Trwyddedu a Rheoleiddio

Gofynnodd y Cynghorydd J Watkins y cwestiwn canlynol i'r Aelod Cabinet:

O gofio dyfarniadau diweddar am yr effaith yr oedd ansawdd aer gwael yn gael ar iechyd, ac o gofio marwolaeth drist y ferch fach yn Llundain a briodolwyd i lygredd aer, pa gynlluniau oedd gan y Cyngor i weithredu'n gadarnhaol ar ansawdd aer yn y system unffordd yng Nghaerllion, o gofio nad yw blynyddoedd o fonitro wedi arwain at ddim neu fawr ddim gweithredu hyd yma far?

Ateb:

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Watkins am holi'r cwestiwn hwn. Un o'r materion a amlygwyd gan y Crwner yn ei adroddiad ar farwolaeth drasig y ferch druan hon yn Llundain oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am effaith llygredd aer ar iechyd y cyhoedd.

Gobeithio y bydd hyn yn help i gyfleu'r neges i'r gymuned yn ehangach fod angen gweithredu, gan nad yw mwy o fonitro a rheoleiddio ynddynt eu hunain yn ddigon i ymdrin â'r problemau amgylcheddol hyn.

Bu Uwch-Swyddog Gwyddonol y Cyngor mewn gweithdy ar ansawdd aer yn ddiweddar, lle cafodd air â Rosamund Kissi-Debra (mam y ferch fu farw yn Llundain) am yr heriau o gyfleu negeseuon am ansawdd aer i gymunedau a hwyluso newid ymddygiad i wella ansawdd aer. Byddai codi ymwybyddiaeth ac ymwneud â'r cyhoedd yn rhan hanfodol o strategaeth y Cyngor hwn i ymdrin ag ansawdd aer, yng Nghaerllion a mannau eraill yn y ddinas

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet hefyd na allai'r Cyngor ond gweithredu o fewn y rheoliadau presennol am reoli safonau ansawdd aer, ac mai mater i'r sawl sy'n llunio deddfau a pholisïau fydd sefydlu fframwaith clir i wneud y gwaith hwn.

I droi at faterion penodol i Gaerllion, yr oedd yn hollol anghywir dweud nad oedd y gwaith monitro helaeth a wnaed gan swyddogion Iechyd Amgylchedd heb arwain at weithredu hyd yma. Ymysg camau pendant a gymerwyd yng Nghaerllion mae:

Nifer o fesurau i ymdrin â phroblemau ansawdd aer oherwydd allyriadau cerbydau yng Nghaerllion, er enghraifft:

- Defnyddio cerbydau trydan i gasglu sbwriel ar lwybrau yng Nghaerllion.
- Defnyddio bysus trydan ar lwybrau yng Nghaerllion.
- Parhau â chynllun Eco Stars, oedd yn hwyluso defnyddio llai o danwydd mewn fflyd cerbydau o gwmpas Casnewydd, gan gynnwys Caerllion.
- Defnyddio'r broses o reoli datblygu i fyny seilwaith cerbydau ynni isel iawn mewn datblygiadau newydd, e.e., pwyntiau gwefru cerbydau trydan fel rhan o ddatblygiad Redrow ar safle'r Brifysgol.
- Defnyddio cyfleoedd datblygu i fynnu mesurau lliniaru megis camau rheoli atal oedi i gerbydau adeiladu sy'n gwneud gwaith adnewyddu yn Ysgol Charles Williams.
- Ymwneud a chymuned Caerllion lle bo modd ynghylch pryderon, gwaith cynllunio a phrosiectau sydd ar fin digwydd, e.e., pryderon gan y gymuned leol am lwybrau traffig adeiladu yn ôl ac ymlaen o safle datblygu'r Brifysgol sydd wedi arwain at fwy o fonitro.
- Yr oedd materion ansawdd aer yn annatod ynghlwm a mentrau ehangach am newid hinsawdd a chynaliadwyedd, a bydd y gwaith hefyd yn effeithio'n llesol ar holl ardal Casnewydd gan gynnwys Caerllion.

Camau ar y gweill/at y dyfodol:

- Byddai Adroddiadau Cynnydd Blynyddol am Ansawdd Aer yn cael eu paratoi gyda data mwy manwl. Mae'n amlwg nad yw data cyfredol am 2020 yn ddibynadwy oherwydd y lleihad sylweddol mewn traffig oherwydd cyfyngiadau COVID. Fodd bynnag, er bod pobl wedi parhau i weithio o gartref, bydd hyn yn cael effaith bositif ar ansawdd aer.
- Bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Strategaeth Teithio Cynaliadwy a'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hefyd yn help i ymdrin ag ansawdd aer. Bydd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn cael ei adolygu yn 2021/22 gyda'r bwriad o nodi ymyriadau ar gyfer pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer, megis Caerllion. Byddai hyn yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud dan y Cynllun Trafnidiaeth Cynaliadwy.
- Prynu a defnyddio peiriannau monitro amser-real i dair stryd mewn ARhAA gan gynnwys Caerllion, lle sylwyd ar derfynau uwch na'r amcanion ansawdd aer ar ddarn 75 metr o'r Stryd Fawr. Byddai hyn yn rhoi data am adegau o lygredd mwyaf, fyddai'n bwydo i mewn i ymyriadau a ystyrir fel rhan o broses y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer. Byddai llygrynnau eraill fel gronynnau hefyd yn cael eu mesur gan y peiriannau hyn.
- Sefydlu Grwpiau Ansawdd Aer i o leiaf chwech o'r ARhAA gan gynnwys Caerllion.
- Dylai cynlluniau peilot e-Dacsis gynnwys gweithgaredd e-Dacsis yng Nghaerllion.

- Chwilio am gyfleoedd cyllid trwy Gronfa Dinas-Ranbarth Caerdydd i edrych ar strydoedd problemus fel Stryd Fawr Caerllion, a chanfod atebion i liniaru effeithiau ansawdd aer gwael.

Enghreifftiau yn unig oedd y rhain o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud neu a gynllunnir, ond mae angen i ni ymwneud â'r cyhoedd a chael eu cydweithrediad er mwyn cyrraedd ein hamcanion ansawdd aer.

<u>Ategol:</u>

Yr oedd y Cynghorydd J Watkins yn croesawu mentrau fel y bysus trydan a'r unedau trydanol gwaredu gwastraff fyddai'n mynd trwy'r pentref unwaith yr wythnos. Teimlai nad oedd Aelodau'r Cabinet yn dangos parch wrth awgrymu nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau; yr oedd y Cynghorydd yn ystyried bod trigolion Caerllion yn gyfrifol. Holodd y Cynghorydd J Watkins a oedd yr Aelod Cabinet yn tybio fod ceir trydan yn fforddiadwy, gan nad oeddent i'r rhan fwyaf o drigolion. Onid oedd yn bryd i'r Aelod Cabinet wneud rhywbeth cadarnhaol i Gaerllion a darparu mynediad amgen i'r pentref i wella ansawdd aer.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet nad oedd cost ceir yn fater i'r cyngor hwn benderfynu na gwneud sylw arno. Yr oedd y pwynt y cyfeiriodd yr Aelod Cabinet ato o ran pobl yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar raddfa fyd-eang, nid dim ond Casnewydd. Dim ond hyn-a-hyn y gallai'r Cyngor wneud, ac yr oedd yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn seiliedig ar dystiolaeth am Gasnewydd. Yn olaf, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn gwneud cymaint ag y gallai o ran ansawdd aer yng Nghaerllion.

<u>Cwestiwn 2 – Aelod Cabinet: Datblygu Cynaliadwy</u>

Holodd y Cynghorydd J Watkins y cwestiwn canlynol i'r Aelod Cabinet:

A oedd yr Aelod Cabinet yn cytuno y dylai arian Adran 106 oedd yn cael eu cynhyrchu mewn ward benodol gynnwys llais i'r gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut i wario'r cyfryw arian, ac os felly, pam nad oedd y broses ar waith?

Ymhellach, a oedd yr Aelod Cabinet yn cytuno y dylid gwario arian o'r fath yn unig ar fentrau neu welliannau yn y ward lle'r oedd yr arian yn cael ei gynhyrchu?

<u>Ateb:</u>

Yr oedd oblygiadau cynllunio yn oblygiadau cyfreithiol y daethpwyd iddynt i liniaru effeithiau cynnig datblygu. Gall hyn fod trwy gytundeb cynllunio dan adran o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref: dyna'r esboniad o'r term 'arian adran 106'.

Cyflwynwyd hyn yn dilyn Deddf Seneddol yn 1990.

Yr oedd hwn yn ddarn sylfaenol o ddeddfwriaeth, yr oedd yn rhaid i'r person neu'r datblygwr oedd â diddordeb yn y tir lynu ato, yn ogystal â'r awdurdod cynllunio. Mae oblygiadau cynllunio sydd yn cyd-fynd â thir yn rhwymo yn gyfreithiol, a gellir eu gorfodi.

Petai'r Cyngor yn gwario'r cyfraniadau ar seilwaith neu wasanaethau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y cytundeb cyfreithiol, neu petai'n methu â gwario'r cyfraniad o fewn yr amser a bennwyd, gallai'r Cyngor orfod dychwelyd y cyfraniadau at y datblygwr.

Yr oedd yn bwysig felly deall y broses A106 a'r paramedrau y mae'n rhaid i'r Cyngor weithio o'u mewn i drafod, sicrhau a gwario cyfraniadau A106.

Ac mewn ymateb i ail ran y cwestiwn:

Rhaid i'r cyfraniadau a fynnir gan y datblygwr gael eu defnyddio i ymdrin ag angen a nodwyd (yn hytrach na rhestr o ddymuniadau), ac yr oedd yn bwysig nodi fod y cyfraniadau arfaethedig yn cael eu gosod allan mewn adroddiadau a bennwyd gan y Pwyllgor Cynllunio oedd yn cael eu cyhoeddi cyn y cyfarfodydd. Fel enghraifft, yr oedd cais Campws Caerllion yn cynnwys dros 5 tudalen o drafodaethau ar gyfraniadau Adran 106 y cytunwyd arnynt gyda Phenaethiaid Telerau. Mae'r manylion hyn yn gyhoeddus, a byddai penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio yn cymryd i ystyriaeth argymhellion y swyddog ar y materion hyn yn ogystal ag unrhyw sylwadau wnaed i'r Pwyllgor.

Ategol:

Yr oedd gan y Cynghorydd J Watkins ddiddordeb o glywed yr Aelod Cabinet yn crybwyll angen a nodwyd, ac yr oedd angen wedi ei nodi'n glir am sut y byddid yn gwario arian yng Nghaerllion a dim i ddiddori, dwyn i mewn na datblygu plant yng Nghaerllion. Yr oedd man chwarae gerllaw'r ysgol gyfun oedd wedi dyddio, ac nid oedd dim i bobl ifanc wneud na'i fwynhau. Yr oedd angen gwario'r arian felly ar bobl ifanc i'w dwyn i mewn ac i wella eu bywydau.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn cytuno gyda sylwadau'r Cynghorydd J Watkins, gan ddweud fod Redrow Housing wedi cytuno i £1M o'r arian hwn gael ei wario ar ysgolion Caerllion i'w cynnal a'u cadw, a phum maes chwarae a hamdden gwahanol, ynghyd a chwaraeon oedd yn cynnwys rygbi, ac edrych ar anghenion y gwahanol genedlaethau i gynnal lles pobl ifanc. Cytunwyd hefyd ar deithio cynaliadwy, gyda gosod pwyntiau gwefru trydan gan gynnwys ehangu'r hawl tramwy cyhoeddus, croesfannau cerddwyr, dwy arosfan bws newydd, yn ogystal ag atgyweirio'r adeiladau rhestredig. Felly yr oedd y gwelliannau a gynigiwyd gan Redrow wedi eu hystyried yn ofalus a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio. Byddai hyn yn gwella'r ardal i drigolion Caerllion.

Cwestiwn 3 – Aelod Cabinet: Hamdden a Diwylliant

Holodd y Cynghorydd A Morris y cwestiwn canlynol i'r Aelod Cabinet:

Pa ymdrechion oedd yn cael eu gwneud i ymwneud â gangiau o lanciau oedd yn ymgynnull mewn gwahanol fannau ar draws y ddinas adeg y cyfnod clo?

Ateb:

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion wedi mynd i ymwneud â phobl ifanc ond yn anffodus, roedd y canolfannau cymuned wedi cau adeg y clo. Yr oedd plant â rhai anghenion wedi eu hystyried ac wedi derbyn gofal.

Ategol:

Nid oedd y Cynghorydd Morris yn ystyried nad oedd y Cyngor wedi ymwneud â phobl ifanc oedd heb ddim i'w wneud, unman i fynd ac nad oedd yn gwisgo mygydau nac yn ymbellhau yn gymdeithasol. A fyddai'r Cyngor yn ymwneud â'r bobl ifanc i ddangos eu camgymeriadau iddynt a dweud ym mha berygl yr oeddent yn rhoi eu hunain ac eraill ynddo.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mai materion plismona oedd y rhain. Nid oedd gennym ni fel Cyngor unrhyw hawliau na deddfwriaeth i ddweud wrth bobl i wisgo mygydau neu i beidio â loetran. Defnyddiwyd gorchymyn gwasgaru Adran 48 yn Alway o ganlyniad i ymwneud â'r heddlu, a chynghorwyd y Cynghorydd Morris i wneud yr un peth i Llyswyry trwy gysylltu â'r Arolygydd Cawley.

Cwestiwn 4 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Gofynnodd y Cynghorydd W Routley y cwestiwn canlynol i'r Aelod Cabinet:

Mae’r llifogydd ar 23 Rhagfyr yn destun ymchwiliad Adran 19, a hefyd y fenter storio bagiau tywod fel y trafodwyd eisoes; a fydd modd i chi roi diweddariad i’r Cyngor am y ddau bwnc hwn.

Ateb:

Mae’r ymchwiliad adran 19 ymlaen ar hyn o bryd, ynghyd ag ymchwiliad gan CNC i’r achos a’r ffactorau cyfranogol i’r llifogydd yn rhan ddwyreiniol y ddinas. Pan fydd y canfyddiadau wedi eu cwblhau a’u derbyn, fe’u cyhoeddir ar wefan y cyngor

Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu bagiau tywod i’r cyhoedd, ond y mae CDC a SWFR yn aml yn cynnal trigolion pan fydd llifogydd. Yn ôl fy nghais i, mae swyddogion ar hyn o bryd yn adolygu’r dewisiadau o ran storio bagiau tywod yn lleol, ac fe gyhoeddaf fwy o fanylion pan fyddant yn barod. Mae angen i fusnesau, ffermwyr a pherchenogion tir amaethyddol ofalu bod ganddynt eu cynlluniau llifogydd eu hunain, a gall CNC roi mwy o gyngor am hyn.

Ategol:

Soniodd y Cynghorydd Routley ei fod yn dda siarad â’r Aelod Cabinet a’r swyddogion am 23 Rhagfyr, a ddaliodd pawb yn ddiarwybod; fodd bynnag, yr oedd prinder enbyd o fagiau tywod mewn ardaloedd gwledig; nid oedd Depo Stryd Telford ar agor i gasglu bagiau tywod, ac ni allai’r Cyngor eu cludo. Nodwyd tir amaethyddol i storio bagiau tywod yn lleol i drigolion baratoi ymlaen llaw neu ar ddiwrnod digwyddiad o’r fath allu cael y bagiau tywod hyn i atal llifogydd ar eu heiddo. Yr oedd y fenter hon yn rhyddhau’r cyngor i gymryd agwedd fwy rhagweithiol pan fydd hyn yn digwydd eto. Byddai gwelliannau bychain fel y rhain yn rhoi gobaith i drigolion. Cynigiodd y Cynghorydd Routley help i’r Aelod Cabinet i greu canolfannau dosbarthu.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod mannau wedi eu nodi eisoes yng Nghasnewydd, fel y rhai a grybwyllwyd yn Ward Langstone, ac yr oedd y cyngor hefyd yn edrych ar leoliadau addas hefyd, ac unwaith i hyn gael ei gwblhau, yr oedd y cyngor am ddrafftio polisi a chytuno gyda phawb a dderbyniodd.

9. **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 11 Mai 2021 am 5pm - CCB y Cyngor**